








# Clinig Ceisiadau Grant
# Windrush 75
# Arian i Bawb Lloegr

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Canllawiau'r Cyfarfod

Hoffem i chi gyd elwa o'r sesiynau hyn ac ymgysylltu'n hollol â ni, felly gofynnwn i chi ddilyn y canllawiau canlynol.

- Diffoddwch eich ffonau symudol.
- Allgofnodwch o Outlook a rhaglenni eraill.
- Gosodwch eich TEAMS fel 'do not disturb'.
- Diffoddwch eich meicroffôn oni bai y gofynnir i chi ei droi ymlaen.
- Codwch eich llaw rhithiol os oes cwestiwn gennych.
- Does dim angen gwneud nodiadau oherwydd bydd yr holl wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan.

Diolch

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Pwy ydym ni

- Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn dosbarthu tua £600m y flwyddyn i gymunedau ledled y DU
- Yn 2021/2022, roedd 83% o'n grantiau o dan £10,000
- Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn cyfrannu tua £30 miliwn at achosion da bob wythnos
- Mae ein hincwm yn dod o werthiant tocynnau Loteri Genedlaethol. O bob £2 sy'n cael ei wario ar docyn Loteri, mae 56c (28%) yn mynd at achosion da.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Penblwydd Windrush yn 75 oed

Byddwn ni'n helpu cymunedau i ddathlu digwyddiadau cenedlaethol sy'n bwysig iddyn nhw – gan gynnwys penblwydd Windrush yn 75 oed, Coroni Ei Fawrhydi Y Brenin a Chystadleuaeth Eurovision.

Mae hwn ar gael trwy ein rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol.



CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Cynnwys y sesiwn.....

- Ein cynnig ariannu ar gyfer prosiectau Windrush
- Pa grwpiau sy'n gymwys?
- Ar beth y gallwch chi wario eich grant?
- Yr hyn rydym yn chwilio amdano mewn cais.

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Arian i Bawb Lloegr

<u>Hyd at £10,000</u>

**Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol** – ein ffrwd ariannu mwyaf poblogaidd, sy’n rhoi ffordd gyflym a syml i gael grantiau Loteri bach rhwng £300 a £10,000

- Rydym ni’n ariannwr cyffredinol.
- Rydym ni’n ariannwr hyblyg.
- Rydym ni i bawb.

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Beth ydym ni'n chwilio amdano mewn prosiect?





Mae angen i chi:

- Fodloni UN o'n hamcanion.
- Sicrhau eich bod wedi cynnwys eich cymuned o'r syniad, i gynllunio a gweithredu.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Amcanion

Gallwch ymgeisio am gyllid i gynnal gweithgarwch newydd neu gyfredol neu gefnogi eich sefydliad i newid ac addasu i heriau newydd ac yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi cymunedau, rydym ni'n ariannu prosiectau a sefydliadau sy'n ceisio:

- meithrin ***perthnasoedd cryf*** mewn cymunedau ac ar eu traws
- gwella'r ***llefydd a mannau*** sy'n bwysig i gymunedau
- helpu mwy o bobl i gyrraedd eu potensial, trwy eu cefnogi o'r ***cam cynharaf posibl***
- cefnogi pobl, cymunedau a sefydliadau sy'n wynebu gofynion a heriau cynyddol o ganlyniad uniongyrchol i'r argyfwng costau byw.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Enghraifft o brosiect

Crynodeb Prosiect Un:

Dod â phobl ifanc ynghyd â Neiniau a'u Teidiau ac eraill o'r genhedlaeth Windrush i ddysgu am yr anawsterau a wynebwyd ganddynt a'r ffyrdd y daethant o hyd i hapusrwydd yn eu bywydau. Mae'r prosiect yn ceisio defnyddio llyfr wedi'i gyd-gynhyrchu i gasglu'r holl straeon ac adeiladu naratif cyfunol.

Mae'n gobeithio meithrin gwell cysylltiad rhwng cenedlaethau a bydd hyn yn arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o hanes y cyfnod a'r hyn mae'n ei olygu iddyn nhw. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio rhoi cyfeiriad pwrpasol i'r bobl ifanc i oresgyn rhwystrau, i gredu ynddyn nhw eu hunain a meithrin agwedd gadarnhaol.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Enghraifft o brosiect

Crynodeb Prosiect Dau:

Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal digwyddiad i ddathlu'r Jiwbilî Platinwm/Windrush ar y cyd. Bydd sawl gweithgaredd ar gael dros dridiau, gan gynnwys addurno cacennau, paentio wyneb, gemau dan do, gemau bwrdd, cerddoriaeth fyw, cyflwyniadau, gwisg ffansi, dosbarthiadau coginio, bwffes bwyd arbenigol, corau efengyl, siaradwyr gwadd a chodi baneri.

Yn ogystal, bydd Eiriolwyr Lles ar y safle i gefnogi unigolion a theuluoedd gyda cheisiadau i'r cynllun iawndal Windrush. Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o'r genhedlaeth Windrush a'i chefnogi a meithrin cydlyniant cymunedol gyda digwyddiad traws-genhedlaeth yn ogystal â rhannu dysgu trwy arddangosfeydd lluniau a fideos.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Enghraifft o brosiect

Crynodeb Prosiect Tri:

Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal sesiynau gweithgarwch wythnosol i'r genhedlaeth Windrush hŷn. Mae'r prosiect yn ceisio lleihau unigrwydd ac ynysrwydd yn ogystal â gwella lles meddyliol. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys siaradwyr gwadd, Bingo, adloniant ieuenctid, celf a chrefft, traddodiadau diwylliannol a gemau.

Bydd pedair taith chwarterol yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymweliad â'r Gofeb Windrush Cenedlaethol.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Ymgysylltiad y Gymuned

**Mae'n rhaid i'ch prosiect gynnwys eich cymuned o'r dechrau.**

Mae pobl yn deall yr hyn sydd ei angen yn eu cymunedau'n well na neb, yn enwedig yn ystod yr adeg ddigynsail hon. Hoffem gefnogi prosiectau sy'n:

- cynnwys pobl a chymunedau o'r dechrau
- adeiladu ar gryfderau pobl
- cysylltiedig â'u cymuned.

Meddyliwch am yr hyn allwch chi ei wneud i ddysgu beth sy'n bwysig i bobl yn eich cymuned. Er enghraifft, arolygon, cyfarfodydd, galwadau ffôn, sgyrsiau gydag asiantaethau cymorth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Pwy/Beth sy'n gymwys?




Byddwn ni'n trafod:

- Cymhwysedd grwpiau.
- Cymhwysedd prosiectau.
- Ar beth y gallwch chi wario'r arian?



CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Cymhwysedd grŵp

- **Sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad llai, wedi'u lleoli yn y DU megis:** sefydliadau gwirfoddol heb eu cofrestru, cwmnïau nid-er-elw, elusennau cofrestredig, cwmnïau buddianau cymunedol ayb.
- Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio gael o leiaf **dau** berson ar eu bwrdd neu bwyllgor **nad** ydynt yn gysylltiedig.

# Cymhwysedd prosiect

- Rhwng **£300 - £10,000**

- Hyd y prosiect **- 12 mis neu'n llai** (ond gallai fod yn ddigwyddiad untro ar gyfer y gymuned)

- **12 wythnos** cyn dyddiad dechrau'r prosiect / dyddiad y digwyddiad – os hoffech chi ymgeisio ar gyfer digwyddiad ar 22 Mehefin 2023, bydd angen i chi gyflwyno eich cais erbyn **30 Mawrth 2023**

- Dim grant Arian i Bawb **gweithredol**

- Rhaid iddo fuddio cymuned **o fewn y DU**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Beth allwn ni ei ariannu?

- costau cynnal y sefydliad
- prosiectau tir neu adnewyddu bach
- cyfarpar
- digwyddiadau untro
- costau staff
- costau hyfforddiant
- trafnidiaeth
- cyfleustodau
- treuliau gwirfoddolwyr
- gweithdai


Unrhyw gostau sefydliadol sydd eu hangen i gefnogi grŵp a'i gymuned trwy'r argyfwng presennol.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Cyfriflenni banc

Beth mae ei angen arnom gennych chi?

Mae angen i chi gynnwys tudalen o gyfriflen banc wedi'i dyddio o **fewn y tri mis** diwethaf sy'n dangos yr holl wybodaeth isod, fel y gallwn gadarnhau'ch gwybodaeth gyfrif os bydd eich cais yn llwyddiannus.




- Dylai'r gyfriflen banc fod wedi'i dyddio o fewn **y tri mis diwethaf.**
- Mae'n rhaid cynnwys enw neu logo'r banc.
- Mae'n rhaid mai'r enw ar y gyfriflen banc yw **enw cyfreithiol eich mudiad, ac mae'n rhaid iddo gyfateb i'r enw ar eich cais. Dylai'r gyfriflen gynnwys y cyfeiriad yr anfonir y cyfriflenni iddo.**
- Mae angen i'r gyfriflen a anfonwch ddangos y **rhif cyfrif a'r côd didoli yn glir.** Os yw un dudalen o'ch cyfriflen banc yn cynnwys yr holl wybodaeth uchod, anfonwch ddim ond y dudalen honno.

Os oes gennych gyfrif banc a agorwyd o fewn y tri mis diwethaf, gallwn dderbyn y llythyr croeso gan y banc yn lle cyfriflen banc. Mae'n rhaid i'r llythyr gadarnhau dyddiad agor y cyfrif a holl fanylion y cyfrif.

**Cyfriflenni ar-lein**
Gallwch ofyn am ddatganiad neu lythyr llawn gan eich banc os nad yw'r datganiad ar-lein yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen.

**Os ydych yn ysgol sy'n defnyddio cyfrif banc awdurdod lleol**
Bydd angen llythyr arnom gan yr awdurdod lleol dyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf. Dylai ddangos:
- enw eich ysgol
- enw'r cyfrif banc
- rhif y cyfrif
- cod didoli.

**Cyfeiriad y mudiad yn wahanol i'r cyfeiriad ar y gyfriflen banc**
Rydym yn disgwyl bod y cyfeiriad ar y gyfriflen yn cyfateb i'r mudiad, er hynny rydym yn cydnabod y gallai fod cyfiawnhad dros anfon datganiadau i gyfeiriad arall fel y trysorydd neu'r person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol.

**Beth na allwn ei dderbyn:**
- cyfriflenni sydd ag enw'r mudiad wedi'i dalfyrru
- cyfriflenni banc yn enw dau neu fwy o unigolion yn masnachu fel mudiad sydd ag enw.

TF21_170

January 2022

# Beth mae Arian i Bawb yn ei olygu trwy reolaethau a llywodraethu?

- Y ffordd yr ydych chi'n trefnu eich materion ariannol a sut rydych chi'n sefydlu a chynnal cyfrifon yn y sefydliad.

- Arian cyhoeddus yw cyllid Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – mae cyfrifoldeb gennym i sicrhau ei fod yn cael ei wario fel y nodir mewn ffurflen gais, a gofynnwn i chi gytuno i ddarparu'r wybodaeth hon lle bo'n ofynnol pan fyddwch chi'n ymgeisio hefyd.

- Os hoffech chi ymgeisio, mae'n rhaid i'ch sefydliad gael cyfrif banc yn ei enw cyfreithiol, a reolir gan o leiaf dau berson digyswllt ac awdurdodedig o'r sefydliad. Mae'n rhaid i ddau berson awdurdodi unrhyw drafodion / gwariant o'r cyfrif, ac mae canllawiau gennym hefyd am y math o gyfrifon banc sy'n gymwys a phwy ddylai rheoleiddio eich cyfrif.

- Yn seiliedig ar brofiad rheoli grantiau, mae'n bwysig eich bod yn sicrhau hefyd fod system eglur gennych o ran taliadau. Byddai hyn yn cynnwys cael cerdyn banc i brynu eitemau ar-lein yn uniongyrchol o'r cyfrif, neu lyfr siec. Nid ydym yn caniatáu trosglwyddo arian i unigolyn brynu pethau ar ran y sefydliad.

- Ni chaniateir tynnu mwy na £100 o'r banc gyda'n cyllid.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Ein Gwiriadau

Fel sefydliad sy'n dyrannu cyllid cyhoeddus, rydym ni'n cynnal gwiriadau ar y wybodaeth a roddwch i ni. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac nad oes risgiau arwyddocaol y gallwn eu hadnabod wrth ddyfarnu grantiau.

Rydym wedi cynhyrchu dau ganllaw i'ch helpu i ddeall ein gwiriadau'n fanylach. Os ydych chi'n darllen y rhain cyn i chi ymgeisio, neu os oes gennych chi grant gennym pan fydd eich manylion yn newid, rydym ni'n llai tebygol o ddod o hyd i unrhyw broblemau.

Mae'r ddogfen Canllaw i'n gwiriadau ar eich gwybodaeth (PDF 186KB) yn egluro:

- y meysydd allweddol sydd eu hangen arnoch i sicrhau eu bod yn gywir
- pam bod pryderon gennym o bosib am eich hanes blaenorol gyda ni
- a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl os ydym ni'n adnabod unrhyw broblemau gyda'r rhain.

• Mae'r Canllaw i ddadansoddi risg (PDF 177KB) yn trafod materion fel y gwiriadau hunaniaeth yr ydym yn eu cynnal, risgiau twyll a'r cyfyngiadau sydd gennym o ran rhoi adborth i chi am y rhain.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Felly beth sydd ei angen arnaf i ymgeisio?

- Cyfrif banc yn enw cyfreithiol eich sefydliad sy'n bodloni ein gofynion ac y mae gennych **gyfriflen diweddar neu lythyr croeso** ar ei gyfer

- 2 neu ragor o bobl ddigyswllt ar eich bwrdd neu bwyllgor, neu sydd wedi'u rhestru fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr os ydych wedi'ch cofrestru fel elusen neu gwmni

- Syniad am brosiect lle mae eich cymuned wedi bod ynghlwm â meddwl am y cynllun prosiect a phenderfynu sut y bydd yn cael ei gynnal

- Efallai byddwn ni'n gofyn i chi am ddarnau eraill o wybodaeth os oes angen deall eich prosiect a'ch sefydliad yn well, ond mae'r tri phwynt uchod yn hollbwysig

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# A yw Arian i Bawb yn iawn ar gyfer eich cymuned a'ch sefydliad?

- Cymhwysedd – ydych chi'n gymwys?
- Addas ar gyfer y blaenoriaethau ariannu ac wedi'i arwain gan y gymuned
- Ymgynghoriad – a yw hyn yn bwysig i'ch cymuned
- Llofnodwyr cywir
- Cyfriflen banc gywir
- Rheolaethau ariannol a llywodraethu

Gweler cyngor eglur am yr uchod ar ein gwefan.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Mae hi'n amser  ymgeisio

Ymgeisiwch ar-lein – ewch i'n gwefan – darllenwch y canllawiau ar gymhwysedd ac ymgeisiwch gan ddefnyddio'r ffurflen we ar-lein

**Hygyrchedd** - Os na allwch chi ymgeisio ar-lein, gallwch gysylltu â'r Tîm Cymorth am ffyrdd eraill i ymgeisio.

Byddwch chi'n derbyn e-bost awtomatig yn manylu ar y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi – bydd yr uwch gyswllt yn derbyn copi yn awtomatig.

Rydym ni'n disgwyl rhoi penderfyniad i chi o fewn 12 wythnos o gyflwyno eich cais – ymgeisiwch o leiaf 12 wythnos **CYN** y mae angen yr arian arnoch.

Os oes angen yr arian arnoch am ddigwyddiad ar 22 Mehefin 2023, sicrhewch eich bod yn ymgeisio erbyn 30 Mawrth 2023.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Mwy o gefnogaeth

- Ein ffurflen gais ar-lein
- Ein swyddogion ariannu
- Cysylltu â chi
- Hygyrchedd
- A chofiwch, os nad ydych chi'n llwyddiannus, does dim cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gallwch ymgeisio. Rhaglen barhaus yw Arian i Bawb Lloegr heb ddyddiad gorffen.
- Dolen y Comisiwn Elusennau i ysgrifennu dogfen lywodraethu – does dim rhaid i chi fod yn elusen gofrestredig; adnodd gwych yw hwn i'ch helpu i strwythuro eich dogfen lywodraethu – cliciwch yma

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Cysylltu â ni

0345 4 10 20 30
www.tnlcommunityfund.org.uk
general.enquiries@tnlcommunityfund.org.uk
@TNLComFund
Facebook.com/TNLCommunityFund

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND